NICE National Institute for Health and Care Excellence

**Dyddiad cyhoeddi:** Mehefin 2013

**Gwybodaeth i'r cyhoedd**

# Rivaroxaban i drin emboledd ysgyfeiniol ac i atal thrombo-emboledd gwythiennol pellach

*Mae 'canllawiau arfarnu technoleg' NICE yn rhoi cyngor ar sut a phryd y dylid defnyddio cyffuriau a thriniaethau eraill yn y GIG.*

Mae'r ddogfen hon yn egluro pryd y dylid defnyddio rivaroxaban i drin oedolion sydd ag emboledd ysgyfeiniol ac i atal thrombo-emboledd gwythiennol pellach yn y GIG yng Nghymru a Lloegr. Mae'n egluro'r canllaw (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal). Cafodd ei ysgrifennu ar gyfer pobl sydd wedi cael emboledd ysgyfeiniol ond gall hefyd fod yn ddefnyddiol i'w teuluoedd neu ofalwyr neu unrhyw un sydd â diddordeb yn y cyflwr.

Nid yw'n disgrifio emboledd ysgyfeiniol na thrombo-emboledd gwythiennol na'r triniaethau'n fanwl – dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd drafod y rhain gyda chi. Gallwch gael rhagor o wybodaeth gan y sefydliadau a restrir ar dudalen 4.

*Efallai nad hon yw'r unig driniaeth bosibl ar gyfer emboledd ysgyfeiniol ac i atal thrombo-emboledd gwythiennol. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.*

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Mae NICE yn argymell rivaroxaban fel triniaeth bosibl i oedolion ag emboledd ysgyfeiniol ac i atal thrombosis gwythiennau dwfn neu emboledd ysgyfeiniol arall.

### Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Mae NICE yn edrych ar ba mor dda y mae triniaethau yn gweithio yn ogystal â pha mor dda y maent yn gweithio mewn perthynas â'u cost i'r GIG. Mae NICE wedi argymell rivaroxaban oherwydd bod y buddiannau a rydd yn cyfiawnhau ei gost.

## Emboledd ysgyfeiniol a thrombo-emboledd gwythiennol

Pan fydd ceulad gwaed yn ffurfio ac yn cael ei gludo yn y gwaed i ran arall o'r corff lle y gall achosi problemau, gelwir hyn yn thrombo-emboledd gwythiennol. Os caiff y ceulad ei gludo i'r ysgyfaint, fe'i gelwir yn emboledd ysgyfeiniol, a all fod yn angheuol. Gelwir ceulad yn un o'r gwythiennau dwfn yn y goes, y glun, y pelfis neu'r fraich, cyfeirir ato fel thrombosis gwythiennau dwfn.

## Rivaroxaban

Cyffur yw rivaroxaban (a elwir hefyd yn Xarelto) a ddefnyddir i drin ceuladau gwaed a'u hatal rhag ffurfio mewn pibellau gwaed. Mae'n gwneud hyn drwy rwystro sylwedd a elwir yn Ffactor Xa rhag gweithio, sy'n angenrheidiol i ffurfio ceuladau gwaed.

NICE National Institute for Health and Care Excellence

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Pan fydd NICE yn argymell triniaeth, rhaid i’r GIG sicrhau ei bod ar gael i’r bobl hynny y gallai eu helpu, fel arfer o fewn tri mis i gyhoeddi’r canllaw.

Felly, os ydych wedi cael emboledd ysgyfeiniol, a'ch bod chi a'ch meddyg o'r farn mai rivaroxaban yw’r driniaeth gywir i chi (gweler 'Beth mae NICE wedi'i ddweud?' ar dudalen 2), dylech allu cael y driniaeth ar y GIG. Gweler www.nice.org.uk/aboutguidance os ydych yn credu eich bod yn gymwys i gael y driniaeth ond nad yw ar gael.

## Rhagor o wybodaeth

Gall y sefydliadau isod roi rhagor o wybodaeth a chymorth i bobl â rivaroxaban. Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

- AntiCoagulation Europe, 0208 289 6875
  www.anticoagulationeurope.org
- Thrombosis UK, 0300 772 9603
  www.Thrombosisuk.org

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn lle da i gael gwybod mwy. Os ydych yn byw yng Nghymru, dylech siarad â Galw Iechyd Cymru i gael gwybodaeth am bwy i gysylltu â nhw.

## NICE

Mae NICE yn darparu canllawiau a chyngor cenedlaethol i wella iechyd a gofal cymdeithasol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried y dystiolaeth sydd ar gael am y cyflwr a'r triniaethau, barn cleifion a gofalwyr a phrofiadau meddygon, nyrsys a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, ac yn ystyried y costau sydd ynghlwm. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

*I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance*

*Mae'r ddogfen hon a fersiynau eraill o'r canllawiau a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn www.nice.org.uk/guidance/TA287*

*Rydym yn annog y GIG a sefydliadau gwirfoddol i ddefnyddio testun o'r ddogfen hon yn eu gwybodaeth eu hunain am emboledd ysgyfeiniol a thrombo-emboledd gwythiennol.*

**National Institute for Health and Care Excellence**

Level 1A, City Tower, Piccadilly Plaza, Manchester M1 4BT; www.nice.org.uk

NICE National Institute for Health and Care Excellence

ISBN 978-1-4731-0271-2

N2934 June 2013

© National Institute for Health and Care Excellence, 2013. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.